- (a) paratoi dogfen yn dangos (cyn belled ag y gall yr awdurdod bilio perthnasol ganfod o'i gofnodion ardrethi annomestig ar y pryd) enw pob trethdalwr annomestig a chyfeiriad a gwerth ardrethol pob hereditament a feddiannir, neu (os na feddiannir) a berchenogir ganddo yn yr ardal ddaearyddol y mae unrhyw gynigion AGB, cynigion diwygio neu gynigion adnewyddu, yn ôl y digwydd, yn berthnasol iddo;
- (b) darparu copi o'r ddogfen honno i drefnydd y bleidlais; a
- (c) darparu copi o'r wybodaeth yn y ddogfen honno yn ei brif swyddfa yn ystod oriau gwaith arferol i'w archwilio gan unrhyw berson.

(2) Pan fydd yn derbyn cais (a wnaed yn unol â pharagraff (3)) gan -

- (a) gynigydd yr AGB neu'r corff AGB, yn ôl y digwydd; neu gan
- (b) unrhyw berson sydd, neu unrhyw grŵp o bersonau sydd yn cynrychioli 5 y cant neu fwy o'r personau sy'n atebol i dalu unrhyw lefi AGB arfaethedig,

rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol ddarparu, ar ffurf data, copi o'r wybodaeth yn y ddogfen y mae'n ofynnol iddo'i pharatoi o dan baragraff (1) i'r person neu'r grŵp o bersonau hynny.

(3) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff (2) -

- (a) bod ar ffurf ysgrifenedig i'r awdurdod bilio perthnasol;
- (b) nodi pa bleidlais AGB, pleidlais ddiwygio, pleidlais adnewyddu neu ail bleidlais y gwneir y cais mewn perthynas ag ef;
- (c) cadarnhau bod y person neu'r grŵp o bersonau sy'n gwneud y cais yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth y gofynnir amdani ond i bwrpas canfasio personau sydd â hawl i bleidleisio yn y bleidlais AGB, y bleidlais ddiwygio, y bleidlais adnewyddu neu'r ail bleidlais a nodir yn y cais a wneir o dan baragraff (2); a
- (ch) cynnwys y ffi (os oes un) a godir gan yr awdurdod bilio perthnasol o dan baragraff (5).

(4) Ni chaiff unrhyw berson -

- (a) datgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth a ddarperir iddo o dan baragraff (2);
- (b) defnyddio unrhyw wybodaeth o'r fath,

ac eithrio at ddiben canfasio personau sydd â hawl i bleidleisio yn y bleidlais AGB, y bleidlais ddiwygio, y

Obtaining information from billing authority for the purpose of canvassing

11.-(1) As soon as practicable after instructing the ballot holder to hold a ballot (under regulation 5(1)), the relevant billing authority must -

- (a) prepare a document showing (as far as the relevant billing authority is able to ascertain from its non-domestic rates billing records at that time) the name of each non-domestic ratepayer and the address and rateable value of each hereditament which is occupied, or (if unoccupied) owned, by him or her in the geographical area to which any BID proposals, alteration proposals or renewal proposals, as the case may be, relate;
- (b) provide a copy of that document to the ballot holder; and
- (c) make available for inspection by any person a copy of the information in that document at its principal office during normal working hours.

(2) On receiving a request (made in accordance with paragraph (3)) from -

- (a) the BID proposer or BID body, as the case may be; or
- (b) any person who, or any group of persons which, represents 5 per cent or more of the persons who are to be liable for any proposed BID levy,

the relevant billing authority must supply in data form a copy of the information in the document it is required to prepare under paragraph (1) to the person or group of persons concerned.

(3) A request under paragraph (2) must -

- (a) be made in writing to the relevant billing authority;
- (b) identify the BID ballot, alteration ballot, renewal ballot or re-ballot in relation to which the request is made;
- (c) confirm that the person or group of persons making the request intends to make use of the information requested only for the purpose of canvassing persons entitled to vote in the BID ballot, alteration ballot, renewal ballot or re-ballot identified in the request made under paragraph (2); and
- (d) be accompanied by the fee (if any) imposed by the relevant billing authority under paragraph (5).

(4) No person may -

- (a) disclose to any person any information supplied to it under paragraph (2);
- (b) make use of any such information,

otherwise than for the purpose of canvassing persons entitled to vote in the BID ballot, alteration ballot,

bleidlais adnewyddu neu'r ail bleidlais a nodir yn y cais a wneir o dan baragraff (2).

(5) Caiff yr awdurdod bilio perthnasol godi tâl am ddelio â chais ac am ddarparu'r wybodaeth o dan y rheoliad hwn ar y person y darperir yr wybodaeth iddo.

(6) Rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol sicrhau bod swm y tâl a godir o dan baragraff (5) yn rhesymol ar ôl ystyried y costau a achoswyd neu sy'n debygol o gael eu hachosi gan yr awdurdod wrth ddelio gyda cheisiadau ac am gyflenwi gwybodaeth o dan y rheoliad hwn.

Atal cynigion AGB drwy feto

12.-(1) At ddibenion adran 51(2) y Ddeddf, yr amgylchiadau rhagnodedig yw bod awdurdod bilio perthnasol o'r farn bod trefniadau'r AGB yn debygol-

- (a) o wrthdaro yn sylweddol gydag unrhyw bolisi sydd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol ac a gynhwysir mewn dogfen a gyhoeddwyd gan yr awdurdod (p'un ai yw'r awdurdod o dan ddyletswydd statudol i baratoi dogfen o'r fath neu beidio); neu
- (b) o fod yn faich ariannol anghymesur ar unrhyw berson neu gategori o bersonau (o'u cymharu â threthdalwyr annomestig eraill yn ardal ddaearyddol yr AGB) a-
 - (i) bod y baich yn cael ei achosi gan gamlunio ardal ddaearyddol yr AGB neu gan strwythur lefi'r AGB; a
 - (ii) bod y baich yn annheg.

(2) At ddiben adran 51(2) y Ddeddf, y cyfnod rhagnodedig yw 15 o ddiwrnodau gwaith o ddiwrnod y bleidlais.

(3) At ddiben adran 51(3) y Ddeddf, y materion rhagnodedig y mae'n rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol eu hystyried wrth benderfynu a fydd yn defnyddio ei hawl i atal drwy feto yw-

- (a) lefel y gefnogaeth (fel a ddangosir gan ganlyniad y bleidlais AGB neu'r ail bleidlais AGB, yn ôl y digwydd) ar gyfer cynigion yr AGB;
- (b) natur a maint y gwrthdaro y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a);
- (c) o ran paragraff (1)(b), strwythur lefi'r AGB arfaethedig a sut y bydd baich ariannol yr AGB yn cael ei rannu ymhlith trethdalwyr yn ardal ddaearyddol yr AGB;
- (ch) i ba raddau y mae cynigydd yr AGB wedi trafod cynigion yr AGB gyda'r awdurdod cyn cyflwyno cynigion yr AGB i'r awdurdod o dan reoliad 4; ac
- (d) y gost a achoswyd gan unrhyw berson hyd at ddiwedd y cyfnod a ragnodir ym mharagraff (2) o ganlyniad i ddatblygu cynigion yr AGB a

renewal ballot or re-ballot identified in the request made under paragraph (2).

(5) The relevant billing authority may impose a charge in respect of dealing with a request and supplying the information under this regulation on the person to whom the information is to be supplied.

(6) The relevant billing authority must ensure that the amount of a charge imposed under paragraph (5) is reasonable having regard to the costs incurred or likely to be incurred by the authority in dealing with requests and supplying information under this regulation.

Veto of BID proposals

12.-(1) For the purposes of section 51(2) of the Act, the prescribed circumstances are that the relevant billing authority is of the opinion that the BID arrangements are likely -

- (a) to conflict to a material extent with any policy formally adopted by and contained in a document published by the authority (whether or not the authority is under a statutory duty to prepare such document); or
- (b) to be a significantly disproportionate financial burden on any person or class of persons (as compared to the other non-domestic ratepayers in the geographical area of the BID) and -
 - (i) that burden is caused by the manipulation of the geographical area of the BID or by the structure of the BID levy; and
 - (ii) that burden is inequitable.

(2) For the purposes of section 51(2) of the Act, the prescribed period is 15 working days from the day of the ballot.

(3) For the purposes of section 51(3) of the Act, the prescribed matters to which the relevant billing authority must have regard in deciding whether to exercise its veto are -

- (a) the level of support (as evidenced by the result of the BID ballot or re-ballot of a BID ballot, as the case may be) for the BID proposals;
- (b) the nature and extent of the conflict referred to in paragraph (1)(a);
- (c) in relation to paragraph (1)(b), the structure of the proposed BID levy and how the financial burden of the BID is to be distributed amongst ratepayers in the geographical area of the BID;
- (d) the extent to which the BID proposer discussed the BID proposals with the authority before submitting the BID proposals to the authority under regulation 4; and
- (e) the cost incurred by any person up to the end of the period prescribed in paragraph (2) in developing the BID proposals and canvassing

chanfasio yng nghyswllt cynigion yr AGB.

Apelio yn erbyn y feto

13.-(1) Rhaid i berson ("yr apelydd") sydd am apelio yn erbyn feto o dan adran 52(1) y Ddeddf, gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol, o fewn 28 o ddiwrnodau i gyhoeddiad yr hysbysiad feto gan yr awdurdod bilio perthnasol o dan adran 51(4) y Ddeddf, hysbysiad ysgrifenedig ("yr hysbysiad apêl") ynghyd â datganiad yn nodi'r rhesymau dros wneud yr apêl.

(2) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn yr hysbysiad apêl, rhaid iddo -

- (a) rhoi gwybod i'r apelydd ac i'r awdurdod bilio perthnasol drwy lythyr ei fod wedi derbyn yr hysbysiad apêl; a
- (b) anfon copi o'r hysbysiad apêl at yr awdurdod bilio perthnasol.

(3) Pan fydd dau neu fwy o hysbysïadau apêl yn ymwneud â'r un feto, caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu yr apelau gyda'i gilydd.

(4) Penderfynir yr apêl drwy sylwadau ysgrifenedig a wneir i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(5) O fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (2), caiff yr apelydd a'r awdurdod bilio perthnasol gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch yr apêl.

(6) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi o'r sylwadau a wneir gan un parti yn yr apêl at y partiön eraill yn yr apêl ynghyd â datganiad yn egluro effaith paragraff (7).

(7) Caiff unrhyw barti mewn apêl yr anfonir copi o'r sylwadau ato o dan baragraff (6) gyflwyno fel ymateb, o fewn 14 diwrnod i fod wedi eu derbyn, sylwadau ysgrifenedig pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi o unrhyw sylwadau pellach a wneir at y partiön eraill yn yr apêl.

(8) Wrth benderfynu a fydd yn caniatáu apêl ai peidio, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y materion canlynol-

- (a) lefel y gefnogaeth (fel a ddangosir gan ganlyniad y bleidlais AGB neu'r ail bleidlais AGB, yn ôl y digwydd) ar gyfer cynigion yr AGB;
- (b) natur a maint y gwrthdaro y cyfeirir ato yn rheoliad 12(1)(a);
- (c) o ran rheoliad 12(1)(b), strwythur lefi'r AGB arfaethedig a sut y bydd baich ariannol yr AGB yn cael ei rannu ymhlith trethdalwyr yn ardal ddaceryddol yr AGB;

in relation to the BID proposals.

Appeal against veto

13.-(1) A person ("the appellant") who wishes to appeal against a veto under section 52(1) of the Act must serve on the National Assembly, within 28 days of the veto notice being given by the relevant billing authority under section 51(4) of the Act, a notice in writing ("the appeal notice") accompanied by a statement of the reasons for making the appeal.

(2) On receipt of the appeal notice the National Assembly must -

- (a) notify the appellant and the relevant billing authority in writing that it has received the appeal notice; and
- (b) send a copy of the appeal notice to the relevant billing authority.

(3) Where two or more appeal notices relate to the same veto, the National Assembly may decide those appeals together.

(4) The appeal shall be determined by way of written representations to be made to the National Assembly.

(5) Within 28 days of the date of the notice given by the National Assembly under paragraph (2), the appellant and the relevant billing authority may serve on the National Assembly written representations in respect of the appeal.

(6) A copy of the representations made by one party to the appeal must be sent by the National Assembly to the other parties to the appeal and must be accompanied by a statement explaining the effect of paragraph (7).

(7) Any party to an appeal to whom a copy of representations is sent under paragraph (6) may within 14 days of receiving them serve on the National Assembly further written representations in reply and the National Assembly must send a copy of any such further representations to the other parties to the appeal.

(8) In deciding whether to allow an appeal, the National Assembly must take into account the following matters -

- (a) the level of support (as evidenced by the result of the BID ballot or re-ballot of a BID ballot, as the case may be) for the BID proposals;
- (b) the nature and extent of the conflict referred to in regulation 12(1)(a);
- (c) in relation to regulation 12(1)(b), the structure of the proposed BID levy and how the financial burden of the BID is to be distributed amongst ratepayers in the geographical area of the BID;

- (ch) i ba raddau y mae cynigydd yr AGB wedi trafod cynigion yr AGB gyda'r awdurdod cyn cyflwyno'r cynigion hynny i'r awdurdod o dan reoliad 4;
- (d) a ydyw'r awdurdod bilio perthnasol, ar ôl y dyddiad y derbynir yr hysbysiad o dan reoliad 4(2)(a)(ii), wedi newid unrhyw bolisi a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan yr awdurdod ac a gynhwysir mewn dogfen a gyhoeddwyd gan yr awdurdod fel bo'r polisi yna'n gwrthdaro gyda chynigion yr AGB; ac
- (dd) y gost a achoswyd gan unrhyw berson hyd at ddiwedd y cyfnod a ragnodir yn rheoliad 12(2) o ganlyniad i ddatblygu cynigion yr AGB a chanfasio ynglŷch cynigion yr AGB.

(9) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu ei benderfyniad at yr apelydd a'r awdurdod bilio perthnasol.

Cyfrif Refeniw AGB

14.-(1) Bydd Atodlen 3 yn cael effaith ynghylch cadw Cyfrif Refeniw AGB.

(2) Pan fydd gan yr awdurdod bilio perthnasol fwy nag un hysbysiad o dan reoliad 4(2)(a)(ii), rhaid iddo sicrhau bod Cyfrif Refeniw AGB ar wahân yn cael ei gadw ar gyfer pob un o'r ardaloedd gwella busnes.

(3) Y mae'r paragraff hwn yn gymwys pan ddaw trefniadau'r AGB i ben (drwy eu terfynu o dan reoliad 18, neu fel arall) a cheir credyd yng Nghyfrif Refeniw yr AGB a fyddai, ar ôl tynnu swm rhesymol am weinyddu'r trefniadau i gredydu neu ad-dalu'r swm, yn rhoi credyd neu ad-daliad o £5 o leiaf i bob person oedd yn atebol i dalu lefi'r AGB yn yr union gyfnod cyn i drefniadau'r AGB ddod i ben ("talwr lefi blaenorol").

(4) Pan fydd paragraff (3) yn berthnasol, rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol -

- (a) cyfrifo faint o gredyd yng Nghyfrif Refeniw yr AGB (ar ôl tynnu'r swm y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (3)) sydd i'w gredydu neu ei ad-dalu i bob talwr lefi blaenorol (a rhaid cyfrifo faint sydd i'w gredydu neu ei ad-dalu i bob talwr lefi blaenorol yn ôl faint o lefi'r AGB yr oedd pob talwr lefi blaenorol yn atebol i'w dalu dros gyfnod trethadwy diwethaf trefniadau'r AGB); ac yn
- (b) gwneud trefniadau i'r swm hwnnw gael ei gredydu yn erbyn unrhyw atebolrwydd yn nhermau ardrethi annomestig gan bob talwr lefi blaenorol, neu, lle nad oes gan y person hwnnw atebolrwydd yn nhermau ardrethi annomestig, yn trefnu i'r swm gael ei ad-dalu i'r person hwnnw.

- (d) the extent to which the BID proposer discussed the BID proposals with the authority before submitting the BID proposals to the authority under regulation 4;
- (e) whether, after the date on which the notice under regulation 4(2)(a)(ii) is received, the relevant billing authority changed any policy formally adopted by and contained in a document published by the authority so that such policy then conflicted with the BID proposals; and
- (f) the cost incurred by any person up to the end of the period prescribed in regulation 12(2) in developing the BID proposals and canvassing in relation to the BID proposals.

(9) As soon as reasonably practicable after a decision has been made, the National Assembly must send notice of its decision to the appellant and the relevant billing authority.

BID Revenue Account

14.-(1) Schedule 3 shall have effect with respect to the keeping of the BID Revenue Account.

(2) Where the relevant billing authority has more than one notice under regulation 4(2)(a)(ii) it must ensure that a separate BID Revenue Account is kept for each of the BIDs.

(3) This paragraph applies where BID arrangements come to an end (whether by reason of termination under regulation 18 or otherwise) and there is a credit to the BID Revenue Account which, after deducting a reasonable sum for the cost of administering the arrangements for crediting or refunding the amount, would provide a credit or refund of at least £5 for each person who was liable to pay the BID levy immediately prior to the end of the BID arrangements ("a previous levypayer").

(4) Where paragraph (3) applies the relevant billing authority must -

- (a) calculate the amount of the credit to the BID Revenue Account (after the deduction referred to in paragraph (3) has been made) which is to be credited or refunded to each previous levypayer (and the amount to be credited or refunded to each previous levypayer must be calculated in proportion to the amount of the BID levy which each previous levypayer was liable to pay for the last chargeable period of the BID arrangements); and
- (b) make arrangements for the amount so calculated to be credited against any liability by way of non-domestic rates of each previous levypayer or, where there is no liability for that person by way of non-domestic rates, for the amount to be refunded to that person.

(5) Pan na fydd paragraff (3) yn berthnasol, rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol drosglwyddo'r balans credyd yng Nghyfrif Refeniw yr AGB i gredyd ei gronfa gyffredinol.

Gweinyddu lefi'r AGB etc

15. Rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol, erbyn y dyddiad cychwyn, wneud trefniadau i godi, gweinyddu, casglu, adennill a gweithredu lefi'r AGB a bydd Atodlen 4 yn berthnasol i'r materion hyn.

Diwygio trefniadau'r AGB heb bleidlais ddiwygio

16.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), caniateir diwygio trefniadau'r AGB heb bleidlais ddiwygio pan fydd y trefniadau yn cynnwys darpariaeth i alluogi gwneud hynny.

(2) Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth ym mharagraff (1) ddiwygio -

- (a) ardal ddaearyddol yr AGB; na
- (b) lefi'r AGB mewn ffordd a fyddai yn -
 - (i) achosi unrhyw berson i fod yn atebol i dalu lefi'r AGB lle nad oedd yn atebol i'w thalu'n flaenorol; na
 - (ii) chynyddu lefi'r AGB i unrhyw berson.

(3) Pan fydd paragraff (1) yn berthnasol, rhaid i drefniadau'r AGB gynnwys darpariaeth yn disgrifio'r weithdrefn sydd i'w dilyn ar gyfer gwneud y diwygiad.

(4) Rhaid i'r weithdrefn y cyfeirir ati ym mharagraff (3) gynnwys -

- (a) lle ceir corff AGB, ymgynghoriad rhwng y corff AGB a'r awdurdod bilio perthnasol; a
- (b) lle mai'r corff AGB awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu trefniadau'r AGB, rhaid cynnal ymgynghoriad rhwng yr awdurdod bilio perthnasol ac unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned fusnes yn ardal ddaearyddol yr AGB y gwêl yr awdurdod yn briodol.

(5) Pan fydd trefniadau'r AGB yn cael eu diwygio o dan y rheoliad hwn -

- (a) rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol sicrhau bod trefniadau'r AGB (wedi eu diwygio) wedi eu gwneud erbyn yr amser y mae'n rhaid i'r trefniadau AGB hynny (wedi eu diwygio) ddod i rym a rhaid iddo anfon hysbysiad yn egluro'r rheswm dros y diwygiad a'i effaith at bob person sy'n atebol i dalu lefi'r AGB; a
- (b) bydd adrannau 44 hyd at 47 y Ddeddf, rheoliadau 14 i 18 ac Atodlenni 3 a 4 yn effeithiol o'r dyddiad y daw trefniadau'r AGB (wedi eu diwygio) i rym fel pe bai cyfeiriad ym

(5) Where paragraph (3) does not apply, the relevant billing authority must carry the credit balance in the BID Revenue account to the credit of its general fund.

Administration of the BID levy etc

15. The relevant billing authority must, by the commencement date, make arrangements for the imposition, administration, collection, recovery and application of the BID levy and Schedule 4 shall have effect with respect to those matters.

Alteration of BID arrangements without an alteration ballot

16.-(1) Subject to paragraphs (2) to (4), BID arrangements may be altered without an alteration ballot where the arrangements include a provision to that effect.

(2) No provision mentioned in paragraph (1) may alter -

- (a) the geographical area of the BID; or
- (b) the BID levy in such a way that would -
 - (i) cause any person to be liable to pay the BID levy who was not previously liable to pay; or
 - (ii) increase the BID levy for any person.

(3) Where paragraph (1) applies, the BID arrangements must include a provision describing the procedure to make the alteration.

(4) The procedure referred to in paragraph (3) must include -

- (a) where there is a BID body, a consultation between the BID body and the relevant billing authority; and
- (b) where a local authority BID body is responsible for implementing the BID arrangements, a consultation between the relevant billing authority and such representatives of the business community for the geographical area of the BID as the authority considers appropriate.

(5) Where the BID arrangements are altered under this regulation -

- (a) the relevant billing authority must ensure that the BID arrangements (as altered) are made by the time those BID arrangements (as altered) are to come into force and must send a notice explaining the reason for and the effect of the alteration to each person liable for the BID levy; and
- (b) sections 44 to 47 of the Act, regulations 14 to 18 and Schedules 3 and 4 shall have effect from the date the BID arrangements (as altered) come into force as if a reference in

mhob un o'r darpariaethau hyn at "drefniadau'r AGB" yn gyfeiriad at drefniadau'r AGB (wedi eu diwygio).

Diwygiadau i drefniadau'r AGB yn dilyn pleidlais

17.-(1) Pan fydd cynnig i newid neu ddiwygio -

- (a) trefniadau'r AGB nad ydynt yn cynnwys darpariaeth i alluogi diwygio'r trefniadau heb bleidlais;
- (b) ardal ddaearyddol yr AGB; neu
- (c) lefi'r AGB mewn ffordd a fyddai yn -
 - (i) achosi unrhyw berson i fod yn atebol i dalu lefi'r AGB lle nad oedd yn atebol i'w thalu'n flaenorol; neu yn
 - (ii) cynyddu lefi'r AGB i unrhyw berson,

caiff y corff AGB, neu, os mai corff AGB awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu trefniadau'r AGB, caiff yr awdurdod bilio perthnasol ddiwygio trefniadau'r AGB yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Ni ddaw diwygiadau i drefniadau'r AGB o dan y rheoliad hwn i rym oni bai y cymeradwyr y cynigion diwygio drwy bleidlais o'r trethdalwyr annomestig sy'n atebol i dalu lefi'r AGB o dan drefniadau'r AGB (wedi eu diwygio) ("pleidlais ddiwygio") ac nid ystyrir hwynt i fod wedi eu cymeradwyo gan bleidlais ddiwygio oni bai -

- (a) bod y mwyafrif o'r personau sy'n pleidleisio yn y bleidlais ddiwygio wedi pleidleisio o blaid y cynigion diwygio; a
- (b) bod gwerth ardrethol cyfunol pob hereditament y pleidleisiodd person yn y bleidlais ddiwygio mewn perthynas ag ef o blaid y cynigion diwygio, yn fwy na gwerth ardrethol cyfunol pob hereditament y pleidleisiodd person yn y bleidlais ddiwygio mewn perthynas ag ef yn erbyn y cynigion diwygio.

(3) Pan fydd trefniadau'r AGB yn cael eu diwygio o dan y rheoliad hwn -

- (a) rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol sicrhau bod trefniadau'r AGB (wedi eu diwygio) wedi eu gwneud erbyn yr amser y mae'n rhaid i'r trefniadau AGB hynny (wedi eu diwygio) ddod i rym; a
- (b) bydd adrannau 44 hyd at 47 y Ddeddf, rheoliadau 14 i 18 ac Atodlenni 3 a 4 yn effeithiol o'r dyddiad y daw trefniadau'r AGB (wedi eu diwygio) i rym fel pe bai cyfeiriad ym mhob un o'r darpariaethau hynny at "drefniadau'r AGB" yn gyfeiriad at drefniadau AGB (wedi eu diwygio).

each of those provisions to "BID arrangements" were a reference to the BID arrangements (as altered).

Alterations of the BID arrangements following a ballot

17.-(1) Where there is a proposal to alter -

- (a) BID arrangements which do not include a provision allowing for the arrangements to be altered without a ballot;
- (b) the geographical area of the BID; or
- (c) the BID levy in such a way that would -
 - (i) cause any person to be liable to pay the BID levy who was not previously liable to pay; or
 - (ii) increase the BID levy for any person,

the BID body or, where a local authority BID body is responsible for implementing the BID arrangements, the relevant billing authority may alter the BID arrangements in accordance with this regulation.

(2) An alteration of the BID arrangements under this regulation is not to come into force unless the alteration proposals are approved by a ballot of the non-domestic ratepayers who are to be liable for the BID levy under the BID arrangements (as altered) ("an alteration ballot") and they are not to be regarded as approved by an alteration ballot unless -

- (a) a majority of the persons voting in the alteration ballot have voted in favour of the alteration proposals; and
- (b) the aggregate of the rateable values of each hereditament in respect of which a person voting in the alteration ballot has voted in favour of the alteration proposals exceeds the aggregate of the rateable values of each hereditament in respect of which a person voting in the alteration ballot has voted against the alteration proposals.

(3) Where BID arrangements are altered under this regulation -

- (a) the relevant billing authority must ensure that the BID arrangements (as altered) are made by the time those BID arrangements (as altered) are to come into force; and
- (b) sections 44 to 47 of the Act, regulations 14 to 18 and Schedules 3 and 4 shall have effect from the date the BID arrangements (as altered) come into force as if a reference in each of those provisions to "BID arrangements" were a reference to the BID arrangements (as altered).

Terfynu trefniadau'r AGB

18.-(1) Caiff yr awdurdod bilio perthnasol derfynu trefniadau'r AGB os -

- (a) ym marn yr awdurdod, ni fydd gan y corff AGB gyllid digonol i gwrdd â'i atebolrwydd ariannol dros y cyfnod trethadwy presennol, ac y mae'r awdurdod wedi -
 - (i) rhoi cyfle rhesymol i'r corff AGB wneud trefniadau i gyllido'r diffyg ariannol neu i leihau'r gwaith neu'r gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau'r AGB fel bod y diffyg ariannol yn cael ei wrthbwysu'n ddigonol; ac wedi
 - (ii) rhoi cyfle, mewn cyfarfod cyhoeddus, i'r personau sy'n atebol i dalu lefi'r AGB wneud sylwadau yng nghyswllt terfynu trefniadau'r AGB;
- (b) ym marn yr awdurdod, y mae'r corff AGB wedi methu â darparu, neu wedi methu â gwneud cynnydd rhesymol gyda darparu'r gwaith neu'r gwasanaethau sydd i'w darparu o dan drefniadau'r AGB; neu
- (c) os nad yw'r awdurdod yn gallu, am resymau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, darparu gwaith neu wasanaethau sy'n angenrheidiol i'r AGB allu parhau, ac y mae'r awdurdod-
 - (i) os ceir corff AGB, wedi ymgynghori gyda'r corff AGB a gydag unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned fusnes yn ardal ddaearyddol yr AGB y gwêl yr awdurdod yn briodol; ac
 - (ii) os mai corff AGB awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu trefniadau'r AGB, wedi ymgynghori gydag unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned fusnes yn ardal ddaearyddol yr AGB y gwêl yr awdurdod yn briodol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff y corff AGB neu, os mai corff AGB awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu trefniadau'r AGB, caiff yr awdurdod bilio perthnasol derfynu trefniadau'r AGB os -

- (a) nad oes galw mwyach am y gwaith neu'r gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau'r AGB; neu
- (b) os nad yw'r corff AGB neu'r corff AGB awdurdod lleol, yn ôl y digwydd, ac am resymau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, yn gallu darparu gwaith neu wasanaethau sy'n angenrheidiol i'r AGB allu parhau.

(3) Ni chaiff y corff AGB neu, os mai corff AGB awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu trefniadau'r AGB, ni chaiff yr awdurdod bilio perthnasol gymryd unrhyw gamau i derfynu trefniadau'r AGB hyd nes -

Termination of BID arrangements

18.-(1) The relevant billing authority may terminate BID arrangements where -

- (a) in the opinion of the authority, the BID body will have insufficient finances to meet its liabilities for the current chargeable period and the authority has -
 - (i) offered the BID body a reasonable opportunity to arrange for financing the shortfall or for a reduction in the works or services under the BID arrangements which is sufficient to offset the shortfall; and
 - (ii) given those persons who are liable for the BID levy an opportunity, at a public meeting, to make representations in relation to the termination of the BID arrangements;
- (b) in the opinion of the authority, the BID body has failed to provide, or to make reasonable progress in the provision of, the work or services to be provided under the BID arrangements; or
- (c) the authority is unable, due to any cause beyond its control, to provide works or services which are necessary for the BID to continue and the authority has -
 - (i) where there is a BID body, consulted the BID body and conducted a consultation with such representatives of the business community for the geographical area of the BID as the authority considers appropriate; and
 - (ii) where a local authority BID body is responsible for implementing the BID arrangements, conducted a consultation with such representatives of the business community for the geographical area of the BID as the authority considers appropriate.

(2) Subject to paragraph (3), the BID body or, where a local authority BID body is responsible for implementing the BID arrangements, the relevant billing authority may terminate the BID arrangements where -

- (a) the works or services to be provided under the BID arrangements are no longer required; or
- (b) the BID body or local authority BID body, as the case may be, is unable, due to any cause beyond its control, to provide works or services which are necessary for the BID to continue.

(3) The BID body or, where a local authority BID body is responsible for implementing the BID arrangements, the relevant billing authority must take no steps to terminate the BID arrangements until -

- (a) os ceir corff AGB, y bydd wedi ymgynghori gyda'r awdurdod bilio perthnasol a gydag unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned fusnes yn ardal ddaearyddol yr AGB y gwêl yr awdurdod yn briodol; a
- (b) os mai corff AGB awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu trefniadau'r AGB, y bydd yr awdurdod bilio perthnasol wedi ymgynghori gydag unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned fusnes yn ardal ddaearyddol yr AGB y gwêl yr awdurdod yn briodol.

(4) Rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol hysbysu'r corff AGB yn ysgrifenedig ynghylch ei fwriad i derfynu trefniadau'r AGB o dan baragraff (1) neu (2) o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad eu derfynu.

(5) Rhaid i'r corff AGB hysbysu'r awdurdod bilio perthnasol yn ysgrifenedig ynghylch ei fwriad i derfynu trefniadau'r AGB o dan baragraff (2) o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad eu derfynu.

(6) Os terfynir trefniadau'r AGB o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i derfynu at bob person sy'n atebol i dalu lef'r AGB a rhaid i'r hysbysiad hwnnw egluro a fydd ad-daliad o dan reoliad 14(4) yn cael ei wneud.

Gwybodaeth

19. Rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol gyflenwi unrhyw wybodaeth i drefnydd y bleidlais y mae ei angen at ddiben cyflawni ei swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn.

Treuliau trefnydd y bleidlais

20. Rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol dalu'r holl wariant a achosir yn briodol gan drefnydd y bleidlais o ran cynnal pleidlais o dan y Rheoliadau hyn.

Cyflwyno ceisiadau neu hysbysiadau yn electronig

21.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r gofyniad yn y Rheoliadau hyn bod unrhyw hysbysiad neu gais, yn ysgrifenedig (ar wahân i ystyr arferol yr ymadrodd hwnnw) wedi ei ddiwallu os bydd y testun-

- (a) wedi ei drosglwyddo ar ffurf electronig;
- (b) wedi ei dderbyn ar ffurf ddarllenadwy; a
- (c) bod modd ei ddefnyddio at ddiben cyfeirio ato yn ddiweddarach.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys i unrhyw hysbysiad sy'n rhaid neu yr awdurdodir ei gyflwyno i

- (a) where there is a BID body, it has consulted the relevant billing authority and conducted a consultation with such representatives of the business community for the geographical area of the BID as the authority considers appropriate; and
- (b) where a local authority BID body is responsible for implementing the BID arrangements, the relevant billing authority has conducted a consultation with such representatives of the business community for the geographical area of the BID as the authority considers appropriate.

(4) The relevant billing authority must notify the BID body in writing of its intention to terminate the BID arrangements under paragraph (1) or (2) at least 28 days before the date of the termination.

(5) The BID body must notify the relevant billing authority in writing of its intention to terminate the BID arrangements under paragraph (2) at least 28 days before the date of the termination.

(6) Where BID arrangements are terminated under this regulation the relevant billing authority must, as soon as is reasonably practicable, give written notice of the termination to each person liable for the BID levy and the notice must include an explanation of whether a repayment under regulation 14(4) is to be made.

Information

19. The relevant billing authority must supply to the ballot holder any information he or she requires for the purposes of carrying out his or her functions under these Regulations.

Expenses of the ballot holder

20. All expenditure properly incurred by the ballot holder in relation to the holding of a ballot under these Regulations must be paid by the relevant billing authority.

Electronic communication of requests, applications or notices

21.-(1) Subject to paragraph (2), a requirement in these Regulations that any request, application or notice should be in writing is satisfied where (apart from the usual meaning of that expression) the text of it -

- (a) is transmitted by electronic communication;
- (b) is received in legible form; and
- (c) is capable of being used for subsequent reference.

(2) Paragraph (1) shall not apply to any notice required or authorised to be given to or served by a

awdurdod bilio neu gan awdurdod bilio i unrhyw berson o dan Atodlen 4, neu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol iddo ei ddarparu o dan baragraff 3(2) yr Atodlen honno.

billing authority on any person by Schedule 4 or any information required by paragraph 3(2) of that Schedule.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

10 Mai 2005

10 May 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

YR HYN A GYNHWYSIR MEWN
CYNIGION AGB, CYNIGION
ADNEWYDDU NEU GYNIGION DIWYGIO

1.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), y materion sydd i'w cynnwys yng nghynigion yr AGB yw -

- (a) datganiad ynghylch pa waith neu wasanaethau sydd i'w darparu, enw'r sawl fydd yn eu darparu (enw'r corff AGB neu'r corff AGB awdurdod lleol) a sut fath o gorff yw'r darparwr (boed yn awdurdod lleol, yn gwmni o dan reolaeth yr awdurdod, yn gwmni cyfyngedig, yn bartneriaeth neu'n gorff arall);
- (b) datganiad ynghylch y gwasanaethau sylfaenol presennol (os oes rhai) a ddarperir gan yr awdurdod bilio perthnasol neu awdurdod cyhoeddus arall;
- (c) disgrifiad o'r ardal ddaearyddol (gan gynnwys map yn dangos yr ardal honno) lle bydd trefniadau'r AGB arfaethedig yn cael effaith;
- (ch) datganiad ynghylch a fydd yr holl drethdalwyr annomestig yn yr ardal ddaearyddol, neu grŵp penodol ohonynt, yn atebol i dalu lefi'r AGB; eglurhad ynghylch sut y cyfrifir lefi'r AGB sydd i'w godi ac eglurhad ynghylch a fydd unrhyw gostau a achosir wrth ddatblygu cynigion yr AGB, yng nghyswllt cynnal pleidlais neu wrth weithredu'r AGB yn cael eu hadennill drwy lefi'r AGB;
- (d) datganiad ynghylch y grŵp penodol o drethdalwyr annomestig (os oes un) y bydd unrhyw ryddhad rhag talu lefi'r AGB yn berthnasol iddo, ac ar ba lefel;
- (dd) datganiad ynghylch a ganiateir diwygio trefniadau'r AGB heb bleidlais ddiwygio ac, os ie, pa agweddau ar drefniadau'r AGB y caniateir eu diwygio fel hyn;
- (e) datganiad ynghylch parhad trefniadau'r AGB; a
- (f) datganiad ynghylch dyddiad cychwyn trefniadau'r AGB.

(2) O ran is-baragraff (1)(c), ni chaff yr ardal ddaearyddol lle bydd trefniadau'r AGB yn cael effaith gynnwys rhan yn unig o hereditament cyfan.

CONTENT OF BID PROPOSALS,
RENEWAL PROPOSALS OR ALTERATION
PROPOSALS

1.-(1) Subject to sub-paragraphs (2) and (3), the matters which must be included in BID proposals are -

- (a) a statement of the works or services to be provided, the name of who will provide them (the name of the BID body or local authority BID body) and the type of body the provider is (whether a local authority, a company under the control of the authority, a limited company, a partnership or other body);
- (b) a statement of the existing baseline services (if any) provided by the relevant billing authority or other public authority;
- (c) a description of the geographical area (including a map showing that area) in which the proposed BID arrangements are to have effect;
- (d) a statement of whether all non-domestic ratepayers in the geographical area or a specified class of them are to be liable for the BID levy, an explanation of how the amount of the BID levy to be levied is to be calculated and an explanation of whether any of the costs incurred in developing the BID proposals, holding of the ballot or implementing the BID are to be recovered through the BID levy;
- (e) a statement of the specified class of non-domestic ratepayer (if any) for which and the level at which any relief from the BID levy is to apply;
- (f) a statement of whether the BID arrangements may be altered without an alteration ballot and, if so, which aspects of the BID arrangements may be altered in this way;
- (g) a statement of the duration of the BID arrangements; and
- (h) a statement of the commencement date of the BID arrangements.

(2) In relation to sub-paragraph (1)(c), the geographical area in which BID arrangements are to have effect must not include part only of a whole hereditament.

(3) O ran is-baragraff (1)(f), rhaid i gynigydd yr AGB nodi faint o ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad ynghylch y canlyniad o dan baragraff 17 o Atodlen 2 y bydd yn bwriadu i drefniadau'r AGB gychwyn, ac ni chaiff y dyddiad cychwyn hwn fod ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

2. Y materion sydd i'w cynnwys mewn cynigion adnewyddu yw -

- (a) datganiad ynghylch cyfnod arfaethedig (heb fod yn fwy na 5 mlynedd) y trefniadau AGB adnewyddedig; a
- (b) crynodeb o drefniadau'r AGB (gan gynnwys ardal ddaearyddol yr AGB, y gwaith neu'r gwasanaeth a ddarperir, esboniad ynghylch pwy sy'n atebol i dalu lefi'r AGB, lefel lefi'r AGB a sut y caiff ei gyfrifo).

3.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), y materion sydd i'w cynnwys yn y cynigion diwygio yw disgrifiad o sut y bwriedir diwygio trefniadau'r AGB o ran y canlynol -

- (a) y gwaith neu'r gwasanaethau a ddarperir neu'r person a fydd yn gyfrifol am weithredu trefniadau yr AGB;
- (b) crynodeb o'r gwasanaethau sylfaenol presennol (os oes rhai) a ddarperir gan yr awdurdod bilio perthnasol;
- (c) yr ardal ddaearyddol (gan gynnwys map yn dangos yr ardal honno) lle bydd trefniadau'r AGB arfaethedig yn cael effaith;
- (ch) pa drethdalwyr annomestig yn yr ardal ddaearyddol fydd yn atebol i dalu lefi'r AGB; esboniad o sut y cyfrifir lefi'r AGB ac esboniad ynghylch a fydd unrhyw gostau a achosir wrth ddatblygu cynigion yr AGB, wrth gynnal pleidlais neu weithredu'r AGB yn cael eu hadennill drwy lefi'r AGB;
- (d) y categori o drethdalwyr annomestig (os oes un) y bydd unrhyw ryddhad rhag talu lefi'r AGB yn berthnasol iddo, ac ar ba lefel;
- (dd) a fydd trefniadau'r AGB yn cael eu diwygio heb bleidlais ddiwygio ac, os byddant, pa agweddau ar drefniadau'r AGB fydd yn cael eu diwygio yn y modd hwn; a
- (e) datganiad ynghylch dyddiad cychwyn y diwygiadau i drefniadau'r AGB.

(2) O ran is-baragraff (1)(c), ni chaiff yr ardal ddaearyddol lle bydd trefniadau'r AGB yn cael effaith gynnwys rhan yn unig o hereditament cyfan.

(3) O ran is-baragraff (1)(e), rhaid i'r corff AGB neu'r corff AGB awdurdod lleol, yn ôl y digwydd, bennu faint o ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad ynghylch y canlyniad o dan baragraff 17 o Atodlen 2 y bydd yn bwriadu i drefniadau'r AGB ddod i rym, ac ni chaiff y dyddiad cychwyn hwn fod ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

(3) In relation to sub-paragraph (1)(h), the BID proposer must specify how many days after the notice of the result is published pursuant to paragraph 17 of Schedule 2 it proposes the BID arrangements will commence and such commencement date must be no later than a year after the date of that notice.

2. The matters which must be included in renewal proposals are -

- (a) a statement of the proposed period (not exceeding 5 years) of the renewed BID arrangements; and
- (b) a summary of the BID arrangements (including the geographical area of the BID, the works or service provided, an explanation of who is liable for the BID levy, the level of the BID levy and how it is calculated).

3.-(1) Subject to sub-paragraph (2), the matters which must be included in alteration proposals are a description of how it is proposed the BID arrangements are to be altered in relation to each of the following -

- (a) the works or services to be provided or the person to have responsibility for implementing the BID arrangements;
- (b) a summary of the existing baseline services (if any) provided by the relevant billing authority;
- (c) the geographical area (including a map showing that area) in which the proposed BID arrangements are to have effect;
- (d) the non-domestic ratepayers in the geographical area who are to be liable for the BID levy, an explanation of how the amount of the BID levy to be levied is to be calculated and an explanation of whether any of the costs incurred in developing the BID proposals, holding of the ballot or implementing the BID are to be recovered through the BID levy;
- (e) the category of non-domestic ratepayer (if any) for which and the level at which any relief from the BID levy is to apply;
- (f) whether the BID arrangements may be altered without an alteration ballot and, if so, which aspects of the BID arrangements may be altered in this way; and
- (g) a statement of the commencement date of the alterations to the BID arrangements.

(2) In relation to sub-paragraph (1)(c), the geographical area in which BID arrangements are to have effect must not include part only of a whole hereditament.

(3) In relation to sub-paragraph (1)(g), the BID body or local authority BID body, as the case may be, must specify how many days after the notice of the result is published pursuant to paragraph 17 of Schedule 2 it proposes the alterations to the BID arrangements will come into force and such commencement date must be no later than a year after the date of that notice.

RHEOLAU AR GYFER PLEIDLEISIAU
AGB, PLEIDLEISIAU ADNEWYDDU A
PHLEIDLEISIAU DIWYGIO

RULES FOR BID BALLOTS, RENEWAL
BALLOTS AND ALTERATION BALLOTS

DARPARIAETHAU YNGHYLCH AMSER

PROVISIONS AS TO TIME

Amserlen

Timetable

1. Rhaid gweithredu'r bleidlais yn unol â'r Amserlen ganlynol.

1. The proceedings of the ballot must be conducted in accordance with the following Timetable.

Amserlen	
<i>Gweithred</i>	<i>Amser</i>
Yr awdurdod bilio yn cyfarwyddo trefnydd y bleidlais	Yn unol â rheoliad 5
Cyhoeddi hysbysiad ynghylch y bleidlais	O leiaf 42 diwrnod cyn diwrnod y bleidlais (paragraff 3)
Diwrnod y bleidlais	Y diwrnod a bennir yn unol â pharagraff 2
Cyhoeddi'r canlyniad	Yn unol â pharagraff 17

Timetable	
<i>Proceeding</i>	<i>Time</i>
The billing authority instructs the ballot holder	In accordance with regulation 5
Publication of notice of ballot	At least 42 days before the day of the ballot (paragraph 3)
Day of the ballot	The day determined in accordance with paragraph 2
Declaration of the result	In accordance with paragraph 17

RHEOLAU AR GYFER PLEIDLEISIAU

RULES FOR BALLOTS

Diwrnod y bleidlais

Day of the ballot

2.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i drefnydd y bleidlais sicrhau bod diwrnod y bleidlais -

2.-(1) Subject to sub-paragraph (2), the ballot holder must secure that the day of the ballot is -

- (a) yn ddiwrnod gwaith;
- (b) o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y papurau pleidleisio at y pleidleiswyr (neu, lle anfonwyd y papurau pleidleisio ar fwy nag un dyddiad, ar ôl y dyddiad diwethaf); a
- (c) dim hwyrach na 90 diwrnod yn cychwyn ar y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad fel sy'n ofynnol o dan baragraff 3(a).

- (a) a working day;
- (b) at least 28 days after the date on which the ballot papers were sent to voters (or, where the ballot papers were sent on more than one date, the last such date); and
- (c) no later than 90 days from the date on which the ballot holder published the notice required by paragraph 3(a).

(2) Ddim hwyrach na 42 o ddiwrnodau cyn diwrnod y bleidlais, gall trefnydd y bleidlais ohirio diwrnod y bleidlais o hyd at 15 o ddiwrnodau gwaith.

(2) No later than 42 days before the day of the ballot, the ballot holder may postpone the day of the ballot by up to 15 working days.

(3) Pan fydd trefnydd y bleidlais yn gohirio'r bleidlais o dan is-baragraff (2), rhaid iddo hysbysu'r awdurdod bilio perthnasol a chynigydd yr AGB neu'r corff AGB, yn ôl y digwydd, yn ysgrifenedig ynghylch

(3) Where the ballot holder postpones the ballot under sub-paragraph (2), he or she must notify the relevant billing authority and the BID proposer or BID body, as the case may be, in writing of the new day of

diwrnod newydd y bleidlais a'r rhesymau dros ohirio a rhaid iddo gymeryd camau rhesymol i gyhoeddi dyddiad newydd y bleidlais.

Pleidleisiau - gweithdrefnau rhagarweiniol

3. Rhaid i drefnydd y bleidlais, o leiaf 42 o ddiwrnodau cyn diwrnod y bleidlais -

- (a) cyhoeddi hysbysiad ynghylch y bleidlais gan nodi -
 - (i) diwrnod y bleidlais; a
 - (ii) y bydd y bleidlais yn cael ei chynnal drwy'r post yn llwyr, gyda'r pleidleisiau i'w dychwelyd erbyn 5p.m. ar ddiwrnod y bleidlais;
- (b) paratoi rhestr o'r personau sydd â hawl i bleidleisio ac unrhyw bleidleisiau procsi (os oes rhai);
- (c) anfon at bob person sydd â hawl i bleidleisio neu, os yw'n berthnasol, at ei berson procsi, ddatganiad -
 - (i) yn egluro'r trefniadau ar gyfer y bleidlais;
 - (ii) yn egluro bod rheoliad 4(3) yn caniatáu i'r person hwnnw ofyn am gopi o gynigion yr AGB gan gynygydd yr AGB; ac yn
 - (iii) darparu enw a chyfeiriad cynigydd yr AGB; ac
- (ch) anfon copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Pleidleisiau - cyffredinol

4.-(1) Rhaid i bob pleidlais fod yn bleidlais bost.

(2) Bydd gan bob person sydd â hawl i bleidleisio mewn pleidlais AGB, pleidlais adnewyddu, pleidlais ddiwygio neu ail bleidlais, yn ôl y digwydd, un bleidlais am bob hereditament a feddiannir neu (os na feddiannir) a berchenogir ganddo yn ardal ddaearyddol yr AGB.

(3) Wrth gadarnhau gwerth ardrethol hereditament i bwrpas pleidlais AGB, pleidlais adnewyddu, pleidlais ddiwygio neu ail bleidlais, yn ôl y digwydd, ni ddylid ystyried unrhyw ddiwygiad i'r gwerth ardrethol na ddangosir yn y rhestr a gedwir o dan adran 42(4) o Ddeddf 1988 yn union cyn diwedd diwrnod y bleidlais.

Pleidleisio drwy brocsi

5.-(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r paragraff hwn, caiff unrhyw berson gael ei benodi yn berson procsi i bleidleisio dros rywun arall mewn pleidlais, a chaiff bleidleisio yn rhinwedd y penodiad hwnnw.

(2) Ni chaiff person sydd â hawl i bleidleisio benodi mwy nag un person procsi ar y tro i bleidleisio drosto

the ballot and the reasons for the postponement and he or she must take reasonable steps to publicise the new day of the ballot.

Ballots - preliminary procedures

3. The ballot holder must, at least 42 days before the day of the ballot -

- (a) publish notice of the ballot stating -
 - (i) the day of the ballot; and
 - (ii) that the ballot will be taken entirely by post, with votes to be returned by 5p.m. on the day of the ballot;
- (b) prepare a list of persons entitled to vote and proxies (if any);
- (c) send to each person entitled to vote or, if applicable, his or her proxy a statement which -
 - (i) explains the arrangements for the ballot;
 - (ii) explains that regulation 4(3) allows that person to request a copy of the BID proposals from the BID proposer; and
 - (iii) provides the name and address of the BID proposer; and
- (d) send to the National Assembly a copy of the notice referred to in sub-paragraph (a).

Ballots - general

4.-(1) Each ballot must be a postal ballot.

(2) Each person entitled to vote in a BID ballot, renewal ballot, alteration ballot or re-ballot, as the case may be, shall have one vote in respect of each hereditament occupied or (if unoccupied) owned by him or her in the geographical area of the BID.

(3) In ascertaining the rateable value of a hereditament for the purposes of a BID ballot, renewal ballot, alteration ballot or re-ballot, as the case may be, no account shall be taken of any alteration to the rateable value which is not shown in the list maintained under section 42(4) of the 1988 Act immediately prior to the end of the day of the ballot.

Proxy voting

5.-(1) Subject to the provisions of this paragraph, any person is capable of being appointed proxy to vote for another in a ballot and may vote in pursuance of the appointment.

(2) The person entitled to vote cannot have more than one person at a time appointed as proxy to vote for

mewn pleidlais.

(3) Pan fydd person sydd â hawl i bleidleisio yn gwneud cais i drefnydd y bleidlais i benodi person procsi i bleidleisio drosto mewn pleidlais arbennig, rhaid i drefnydd y bleidlais wneud y penodiad os bydd y cais yn cwrdd â gofynion y paragraff hwn ac os yw'r person procsi yn gallu ac yn fodlon cael ei benodi.

(4) Rhaid i gais i benodi person procsi gynnwys -

- (a) enw a chyfeiriad llawn y person y mae'r person sydd â hawl i bleidleisio (yr ymgeisydd) eisiau ei benodi yn brocsi drosto;
- (b) cyfeiriad hereditament yr ymgeisydd;
- (c) llofnod yr ymgeisydd; a
- (ch) datganiad ei fod wedi cysylltu gyda'r person procsi a enwir a bod y person procsi hwnnw yn gallu ac yn fodlon cael ei benodi.

(5) Rhaid i gais i benodi procsi gael ei wrthod i bwrpas pleidlais arbennig os yw'n cael ei dderbyn gan drefnydd y bleidlais ar ôl 5p.m. ar y degfed diwrnod cyn diwrnod y bleidlais.

(6) Os yw trefnydd y bleidlais yn caniatáu cais i benodi procsi, rhaid i drefnydd y bleidlais -

- (a) gadarnhau, drwy anfon rhybudd ysgrifenedig at y person sydd â hawl i bleidleisio, bod y procsi wedi ei benodi, a'i enw a'i gyfeiriad; a
- (b) cynnwys manylion y person procsi ar y rhestr y cyfeirir ato ym mharagraff 3(b).

(7) Os yw trefnydd y bleidlais yn gwrthod cais i benodi procsi, rhaid i drefnydd y bleidlais hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig ynghylch ei benderfyniad a'r rheswm drosto.

(8) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), bydd y penodiad yn aros mewn grym ar gyfer y bleidlais honno yn unig.

(9) Caiff y person sydd â hawl i bleidleisio ganslo'r penodiad drwy hysbysu trefnydd y bleidlais neu drwy fod y person procsi yn hysbysu trefnydd y bleidlais nad yw mwyach yn dymuno gweithredu fel procsi.

(10) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (9) a gyflwynir gan berson sydd â hawl i bleidleisio yn canslo penodiad procsi gael ei ddiystyru i bwrpas pleidlais os yw'n cael ei dderbyn gan drefnydd y bleidlais ar ôl 5p.m. ar y pumed diwrnod cyn dyddiad y bleidlais.

(11) Os yw penodiad procsi yn cael ei ganslo o dan is-baragraff (9), rhaid i drefnydd y bleidlais -

- (a) hysbysu'r person sydd â hawl i bleidleisio yn ysgrifenedig bod y penodiad wedi'i ganslo;
- (b) hysbysu'r person y canslwyd ei benodiad fel procsi yn ysgrifenedig, oni bai fod trefnydd y

him or her in a ballot.

(3) Where the person entitled to vote applies to the ballot holder for the appointment of a proxy to vote for him or her in a particular ballot, the ballot holder must make the appointment if the application meets the requirements of this paragraph and that the proxy is capable of being, and willing to be, appointed.

(4) An application for the appointment of a proxy must -

- (a) state the full name and address of the person whom the person entitled to vote (the applicant) wishes to appoint as his or her proxy;
- (b) state the address of the applicant's hereditament;
- (c) be signed by the applicant; and
- (d) contain a statement that he or she has consulted the proxy so named and that that person is capable of being and willing to be appointed.

(5) An application to appoint a proxy must be refused for the purposes of a particular ballot if it is received by the ballot holder after 5p.m. on the tenth day before the day of the ballot.

(6) Where the ballot holder grants an application for the appointment of a proxy, the ballot holder must -

- (a) confirm by notice in writing to the person entitled to vote that the proxy has been appointed, their name and their address; and
- (b) include the proxy's details on the list referred to in paragraph 3(b).

(7) Where the ballot holder refuses an application to appoint a proxy, the ballot holder must notify the applicant in writing of his or her decision and of the reason for it.

(8) Subject to sub-paragraph (9), the appointment shall remain in force for that ballot only.

(9) The appointment may be cancelled by the person entitled to vote giving notice to the ballot holder or by the proxy giving notice to the ballot holder that they no longer wish to act as proxy.

(10) A notice under sub-paragraph (9) by a person entitled to vote cancelling a proxy's appointment must be disregarded for the purposes of a ballot if it is received by the ballot holder after 5p.m. on the fifth day before the date of the poll at that ballot.

(11) Where the appointment of a proxy is cancelled under sub-paragraph (9), the ballot holder must -

- (a) notify the person entitled to vote in writing that the appointment has been cancelled;
- (b) notify the person whose appointment as proxy has been cancelled in writing, unless the ballot

bleidlais eisoes wedi'i hysbysu gan y person hwnnw nad yw mwyach yn dymuno gweithredu fel person procsi; a

- (c) tynnu enw'r person procsi oddi ar y rhestr a gedwir o dan baragraff 3(b).

Gofynion cyfrinachedd

6.-(1) Rhaid i bob person sy'n cymryd rhan yn y trefniadau i anfon neu dderbyn papurau pleidleisio gadw at a chynorthwyo i gadw at ofynion cyfrinachedd y bleidlais ac ni chaiff geisio canfod wrth dderbyn y papurau pleidleisio sut y pleidleisiwyd ar unrhyw bapur pleidleisio nac ychwaith gyfleu unrhyw wybodaeth amdanynt a gafwyd drwy'r trefniadau hynny.

(2) Rhaid i bob person sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gyfri'r pleidleisiau gadw at a chynorthwyo i gadw at gyfrinachedd y pleidleisio ac ni chaiff gyfleu unrhyw wybodaeth a gafwyd wrth gyfri'r pleidleisiau ynghylch sut y pleidleisiwyd ar unrhyw bapur pleidleisio penodol.

(3) Nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn atal trefnydd y bleidlais a'i glercod rhag canfod cyfeiriad a gwerth ardrethol pob hereditament y pleidleisiwyd mewn perthynas ag ef.

Hysbysu'r gofynion cyfrinachedd

7. Rhaid i drefnydd y bleidlais wneud trefniadau fel y gwel yn briodol i sicrhau bod pob person sy'n cymryd rhan yn y gwaith o anfon neu dderbyn neu gyfri'r papurau pleidleisio wedi derbyn copi ysgrifenedig o'r darpariaethau ym mharagraff 6.

Y papur pleidleisio

8.-(1) Nid oes unrhyw beth i'w argraffu ar y papur pleidleisio ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Caiff pob papur pleidleisio fod â rhif neu god bar ar ei gefn.

(3) Ni chaiff y blwch ar gyfer doddi pleidlais ar y papur pleidleisio fod yn llai na 1.5 centimetr sgwâr.

(4) Rhaid i'r holl eiriau ar y papur pleidleisio fod yn deip o'r un maint.

(5) Rhaid i'r papur pleidleisio ar gyfer pleidlais AGB, neu ail bleidlais AGB, gynnwys y geiriau canlynol yn Gymraeg ac yn Saesneg -

holder has previously been notified by that person that he or she no longer wishes to act as proxy; and

- (c) remove the name of the proxy from the record kept under paragraph 3(b).

Requirement of secrecy

6.-(1) Every person attending the proceedings in connection with the issue or the receipt of ballot papers must maintain and aid in maintaining the secrecy of the voting and must not attempt to ascertain at the proceedings in connection with the receipt of the ballot papers the way in which any vote is given in any particular ballot paper or communicate any information with respect thereto obtained at those proceedings.

(2) Every person attending at the counting of the votes must maintain and aid in maintaining the secrecy of voting and must not communicate any information obtained at the counting of the votes as to the way in which any vote is given on any particular ballot paper.

(3) Nothing in this paragraph shall prevent the ballot holder and his or her clerks ascertaining the address and rateable value of each hereditament in respect of which a vote is cast.

Notification of requirement of secrecy

7. The ballot holder must make such arrangements as he or she thinks fit to ensure that every person attending at proceedings in connection with the issue or receipt of ballot papers or the counting of the votes has been given a copy in writing of the provisions of paragraph 6.

The ballot paper

8.-(1) Nothing is to be printed on the ballot paper except in accordance with this paragraph.

(2) Each ballot paper may have a number or barcode printed on the back.

(3) The box in which a vote may be marked on the ballot paper must not be less than 1.5 centimetres square.

(4) All of the words on the ballot paper must appear in the same size type.

(5) Each ballot paper for a BID ballot, or a re-ballot in relation to a BID ballot, must include the following wording in Welsh and in English-

A ydych o blaid y cynigion Ardal Gwella Busnes ar gyfer [rhowch restr o enwau'r strydoedd yn yr ardal ddaearyddol a ddaw o dan gynigion yr AGB]?

Are you in favour of the Business Improvement District proposals for [insert a list of the names of the streets in the geographical area covered by the BID proposals]?

Rhowch groes (X) yn y blwch a ddewiswch.

Place a cross (X) in the box of your choice.

YDW		NAC YDW	
-----	--	------------	--

YES		NO	
-----	--	----	--

Y mae'r bleidlais hon mewn perthynas â -

This vote is in respect of -

[rhowch gyfeiriad hereditament y person sydd â hawl i bleidleisio]

[insert address of the hereditament of the person entitled to vote]

Cadarnhaf fy mod â hawl i bleidleisio mewn perthynas â'r hereditament hwn.

I confirm that I am entitled to vote in respect of this hereditament.

Llofnod

Signed

Enw (mewn llythrennau bras).....

Name (in block capitals).....

Swydd.....(Dalier sylw: os yw'r person sydd â hawl i bleidleisio yn gwmni, yn bartneriaeth neu'n ymddiriedolwyr, rhowch y swydd sydd gan y person sy'n llofnodi)

Position.....(NB where the person entitled to vote is a company, partnership or trustees, please state the position held by the person signing)

Dalier sylw: er mwyn i'ch pleidlais fod yn ddilys, rhaid i'r papur pleidleisio hwn gael ei lofnodi a'i ddychwelyd at drefnydd y bleidlais yn [rhowch y cyfeiriad ar gyfer dychwelyd y papurau pleidleisio] erbyn 5p.m. ar [rhowch ddiwrnod y bleidlais]

Note: for your vote to be valid this ballot paper must be signed and returned to the ballot holder at [insert address for return of ballot papers] by 5p.m. on [insert the day of the ballot]

(6) Rhaid i bob papur pleidleisio ar gyfer pleidlais adnewyddu, neu ail bleidlais yng nghyswllt pleidlais adnewyddu, gynnwys y geiriau canlynol yn Gymraeg ac yn Saesneg -

(6) Each ballot paper for a renewal ballot, or re-ballot in relation to a renewal ballot, must include the following wording in Welsh and in English-

A ydych o blaid adnewyddu trefniadau'r Ardal Gwella Busnes ar gyfer [rhowch restr o enwau'r strydoedd yn yr ardal ddaearyddol a ddaw o dan gynigion yr AGB] am gyfnod pellach o [rhowch barhad trefniadau adnewyddedig arfaethedig yr AGB]?

Are you in favour of renewing the Business Improvement District arrangements for [insert a list of the names of the streets in the geographical area covered by the BID proposals] for a further period of [specify duration of the proposed renewed BID arrangements]?

Rhowch groes (X) yn y blwch a ddewiswch.

YDW		NAC YDW	
-----	--	------------	--

Y mae'r bleidlais hon mewn perthynas â -

[*rhowch gyfeiriad hereditament y person sydd â hawl i bleidleisio*]

Cadarnhaf fy mod â hawl i bleidleisio mewn perthynas â'r hereditament hwn.

Llofnod

Enw (mewn llythrennau bras).....

Swydd.....(Dalier sylw: os yw'r person sydd â hawl i bleidleisio yn gwmni, yn bartneriaeth neu'n ymddiriedolwyr, rhowch y swydd sydd gan y person sy'n llofnodi)

Dalier sylw: er mwyn i'ch pleidlais fod yn ddilys, rhaid i'r papur pleidleisio hwn gael ei lofnodi a'i ddychwelyd at drefnydd y bleidlais yn [*rhowch y cyfeiriad ar gyfer dychwelyd y papurau pleidleisio*] erbyn 5p.m. ar [*rhowch ddiwrnod y bleidlais*]

(7) Rhaid i bob papur pleidleisio ar gyfer pleidlais ddiwygio, neu ail bleidlais yng nghyswllt pleidlais ddiwygio, gynnwys y geiriau canlynol yn Gymraeg ac yn Saesneg -

A ydych o blaid diwygio trefniadau'r Ardal Gwella Busnes ar gyfer [*rhowch restr o enwau'r strydoedd yn yr ardal ddaearyddol a ddaw o dan gynigion yr AGB*]?

Rhowch groes (X) yn y blwch a ddewiswch.

YDW		NAC YDW	
-----	--	------------	--

Y mae'r bleidlais hon mewn perthynas â -

[*rhowch gyfeiriad hereditament y person sydd â hawl i bleidleisio*]

Cadarnhaf fy mod â hawl i bleidleisio mewn perthynas â'r hereditament hwn.

Place a cross (X) in the box of your choice.

YES		NO	
-----	--	----	--

This vote is in respect of -

[*insert address of the hereditament of the person entitled to vote*]

I confirm that I am entitled to vote in respect of this hereditament.

Signed

Name (in block capitals).....

Position.....(NB where the person entitled to vote is a company, partnership or trustees, please state the position held by the person signing)

Note: for your vote to be valid this ballot paper must be signed and returned to the ballot holder at [*insert address for return of ballot papers*] by 5p.m. on [*insert the day of the ballot*]

(7) Each ballot paper for an alteration ballot, or re-ballot in relation to an alteration ballot, must include the following wording in Welsh and in English-

Are you in favour of the alteration of the Business Improvement District arrangements for [*insert a list of the names of the streets in the geographical area covered by the BID*]?

Place a cross (X) in the box of your choice.

YES		NO	
-----	--	----	--

This vote is in respect of -

[*insert address of the hereditament of the person entitled to vote*]

I confirm that I am entitled to vote in respect of this hereditament

Llofnod

Enw (mewn llythrennau bras).....

Swydd.....(Dalier sylw: os yw'r person sydd â hawl i bleidleisio yn gwmni, yn bartneriaeth neu'n ymddiriedolwyr, rhowch y swydd sydd gan y person sy'n llofnodi)

Dalier sylw: er mwyn i'ch pleidlais fod yn ddilys, rhaid i'r papur pleidleisio hwn gael ei lofnodi a'i ddychwelyd at drefnydd y bleidlais yn [rhowch y cyfeiriad ar gyfer dychwelyd y papurau pleidleisio] erbyn 5p.m. ar [rhowch ddiwrnod y bleidlais]

Gwahardd datgelu sut y pleidleisiwyd

9. Ni fydd yn rhaid i unrhyw berson a bleidleisiodd, mewn unrhyw achos cyfreithiol yn cwestiynu'r bleidlais AGB, y bleidlais adnewyddu, y bleidlais ddiwygio neu'r ail bleidlais, ddweud sut y pleidleisiodd.

Gweithdrefn ar anfon papurau pleidleisio

10.-(1) Rhaid anfon un papur pleidleisio at bob person sydd â hawl i bleidleisio yn y bleidlais AGB, y bleidlais adnewyddu, y bleidlais ddiwygio neu yn yr ail bleidlais, yn ôl y digwydd, am bob hereditament y mae ganddo hawl i bleidleisio mewn perthynas ag ef.

(2) Y cyfeiriad yr anfonir y papur pleidleisio iddo yw -

- (a) cyfeiriad yr hereditament neu brif leoliad busnes y person sydd â hawl i bleidleisio ar y rhestr a baratowyd o dan baragraff 3(b);
- (b) mewn achos procsi, y cyfeiriad a roddir ar gyfer y procsi ar y rhestr a baratowyd o dan baragraff 3(b).

(3) Ar yr un pryd, rhaid anfon at bob person sydd â hawl i bleidleisio neu, os yw'n berthnasol, at ei brocsi -

- (a) datganiad wedi'i baratoi gan drefnydd y bleidlais yn egluro trefniadau'r AGB a'r trefniadau ar gyfer y bleidlais; a
- (b) amlen ar gyfer dychwelyd y papur pleidleisio ("yr amlen ddychwelyd").

(4) At ddiben anfon y papurau pleidleisio, caiff trefnydd y bleidlais ddefnyddio -

- (a) darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Post 2000(1));
- (b) unrhyw ddaliwr trwydded arall o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 os yw ei drwydded yn ei ganiatáu i ddanfon papurau o'r fath o un lle i'r llall; neu

Signed

Name (in block capitals).....

Position.....(NB where the person entitled to vote is a company, partnership or trustees, please state the position held by the person signing)

Note: for your vote to be valid this ballot paper must be signed and returned to the ballot holder at [insert address for return of ballot papers] by 5p.m. on [insert the day of the ballot].

Prohibition of disclosure of vote

9. No person who has voted shall, in any legal proceeding to question the BID ballot, renewal ballot, alteration ballot or re-ballot, be required to state the way in which he or she voted.

Procedure on issue of ballot paper

10.-(1) One ballot paper must be issued in respect of each person entitled to vote in the BID ballot, renewal ballot, alteration ballot or re-ballot, as the case may be, in respect of each hereditament for which he or she is entitled to vote.

(2) The address to which the ballot paper is to be sent is -

- (a) the address of the hereditament or the principal place of business of the person entitled to vote on the list prepared under paragraph 3(b);
- (b) in the case of a proxy, the address shown for the proxy on the list prepared under paragraph 3(b).

(3) At the same time there must be issued to each person entitled to vote or, if applicable, his or her proxy -

- (a) a statement prepared by the ballot holder providing an explanation of the BID arrangements and the arrangements for the ballot; and
- (b) an envelope for the return of the ballot paper ("the return envelope").

(4) For the purpose of delivering the ballot papers, the ballot holder may use -

- (a) a universal service provider (as defined in the Postal Services Act 2000(1));
- (b) any other holder of a licence under Part 2 of the Postal Services Act 2000 whose licence permits it to convey such papers from one place to another; or

(c) unrhyw ddull danfon a dosbarthu arall lle nad oes angen trwydded, o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000.

(5) Rhaid i gost y postio fod wedi'i thalu'n barod ar yr amlenni yr anfonir y papurau pleidleisio ynddynt a rhaid i gost y postio fod wedi'i thalu'n barod ar yr holl amlenni sydd i'w dychwelyd.

(6) Ni chaiff unrhyw berson ar wahân i drefnydd y bleidlais a'i glercod fod yn bresennol wrth anfon y papurau pleidleisio, oni bai fod gweithredwr y bleidlais yn caniatáu i'r person hwnnw fod yn bresennol.

Papurau pleidleisio a ddifethwyd

11.-(1) Os yw pleidleisiwr wedi trin ei bapur pleidleisio, drwy amryfusedd, fel na ellir ei ddefnyddio'n hwylus fel papur pleidleisio (cyfeirir ato fel "papur pleidleisio a ddifethwyd") caiff dychwelyd y papur pleidleisio a ddifethwyd (naill ai drwy law neu yn y post) at drefnydd y bleidlais.

(2) Pan fydd trefnydd y bleidlais yn derbyn y papur pleidleisio a ddifethwyd, rhaid iddo anfon papur pleidleisio arall, ac eithrio os bydd yn ei dderbyn yn ddiweddarach na 3 diwrnod gwaith cyn diwrnod y bleidlais.

(3) Rhaid i drefnydd y bleidlais ganslo'r papur pleidleisio a ddifethwyd ar unwaith.

(4) Pan fydd pleidleisiwr yn gwneud cais yn bersonol, caiff trefnydd y bleidlais roi papur pleidleisio arall iddo yn lle ei anfon yn unol â pharagraff 10.

Papurau pleidleisio a gollwyd

12.-(1) Os nad yw pleidleisiwr wedi derbyn ei bapur pleidleisio erbyn y pedwerydd diwrnod gwaith cyn diwrnod y bleidlais, caiff wneud cais (yn bersonol neu beidio) i drefnydd y bleidlais am bapur pleidleisio arall.

(2) Rhaid i gais o'r fath gynnwys tystiolaeth o bwy yw'r pleidleisiwr.

(3) Os yw gweithredwr y bleidlais -

- (a) yn fodlon ynghylch pwy yw'r pleidleisiwr; a
- (b) nid oes ganddo unrhyw reswm i amau na dderbyniodd y pleidleisiwr ei bapur pleidleisio gwreiddiol;

rhaid iddo roi papur pleidleisio arall i'r pleidleisiwr.

(4) Os yw'r pleidleisiwr yn gwneud cais yn bersonol, caiff trefnydd y bleidlais roi papur pleidleisio arall iddo yn lle ei anfon yn unol â pharagraff 10.

(c) any other means of conveyance and delivery for which a licence is not required, under section 7 of the Postal Services Act 2000.

(5) Postage must be prepaid on envelopes in which the ballot paper is issued and return postage must be prepaid on all return envelopes.

(6) No person other than the ballot holder and his or her clerks may be present at the issue of ballot papers, unless permitted by the ballot holder to attend.

Spoilt ballot papers

11.-(1) If a voter has inadvertently dealt with his or her ballot paper in such manner that it cannot be conveniently used as a ballot paper (referred to as "a spoilt ballot paper") they may return (either by hand or by post) to the ballot holder the spoilt ballot paper.

(2) On receipt of the spoilt ballot paper, the ballot holder must issue another ballot paper, except where received later than 3 working days before the day of the ballot.

(3) The ballot holder must immediately cancel the spoilt ballot paper.

(4) Where a voter applies in person, the ballot holder may hand a replacement ballot paper to them instead of delivering it in accordance with paragraph 10.

Lost ballot papers

12.-(1) Where a voter has not received their ballot paper by the fourth working day before the day of the ballot, they may apply (whether or not in person) to the ballot holder for a replacement ballot paper.

(2) Such an application must include evidence of the voter's identity.

(3) Where the ballot holder -

- (a) is satisfied as to the voter's identity; and
- (b) has no reason to doubt that the voter did not receive the original ballot paper;

he or she must issue another ballot paper.

(4) Where a ballot voter applies in person, the ballot holder may hand a replacement ballot paper to them instead of delivering it in accordance with paragraph 10.

Derbyn papurau pleidleisio a ddychwelir

13.-(1) Ni chymerir y bydd papur pleidleisio drwy'r post wedi'i ddychwelyd yn briodol oni bydd wedi'i dderbyn gan drefnydd y bleidlais (naill ai drwy ei law neu yn y post) neu mewn lle wedi'i ddynodi'n benodol yn yr hysbysiad ynghylch y bleidlais fel man derbyn cyn 5p.m. ar ddiwrnod y bleidlais.

(2) Pan fydd papur pleidleisio a ddychwelir yn cael ei dderbyn, rhaid i drefnydd y bleidlais drefnu i'w gadw mewn cynhwysydd diogel hyd nes y bo'r pleidleisiau yn cael eu cyfrif.

(3) Ni chaiff unrhyw berson ar wahân i drefnydd y bleidlais a'i glercod fod yn bresennol i dderbyn y papurau pleidleisio, oni chaniateir iddynt fod yn bresennol gan drefnydd y bleidlais.

Y Cyfrif

14.-(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwrnod y bleidlais, rhaid i drefnydd y bleidlais drefnu i gyfri'r papurau pleidleisio sydd wedi eu dychwelyd yn briodol (yn unol â pharagraff 13(1)) a chofnodi'r nifer a gyfrifwyd.

(2) Ni chaiff unrhyw berson ar wahân i drefnydd y bleidlais a'i glercod fod yn bresennol i gyfri'r papurau pleidleisio, oni chaniateir iddynt fod yn bresennol gan drefnydd y bleidlais.

Papurau pleidleisio a wrthodir

15.-(1) Os bydd papur pleidleisio yn cael ei dderbyn sydd â'r un cod bar â phapur pleidleisio a dderbyniwyd eisoes, bydd y papur pleidleisio hwnnw a'r papur pleidleisio arall gyda'r un rhif neu god bar (yn ôl y digwydd) yn annilys ac ni chânt eu cyfrif.

(2) Bydd unrhyw bapur pleidleisio sydd heb ei lofnodi, heb ei farcio neu sydd yn annilys oherwydd ansicrwydd yn ei gylch, yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), yn annilys ac ni chaiff ei gyfrif.

(3) Ni fydd papur pleidleisio lle mae'r bleidlais wedi'i marcio-

- (a) mewn man ar wahân i'r lle priodol; neu
- (b) ar wahân i gyda chroes; neu
- (c) gan fwy nag un marc,

yn cael ei ystyried i fod yn annilys o'r herwydd os yw'r bwriad pleidleisio yn ymddangos yn glir.

Penderfyniadau ar bapurau pleidleisio

16. Bydd penderfyniad trefnydd y bleidlais ynghylch unrhyw gwestiwn sy'n codi ynghylch papur pleidleisio yn derfynol.

Receipt of return ballot papers

13.-(1) A postal ballot paper must not be taken to be duly returned unless it is received by the ballot holder (either by hand or by post) or at any place for delivery specified in the notice of ballot as being a place of delivery before 5pm on the day of the ballot.

(2) On receipt of a returned ballot paper the ballot holder must arrange for it to be kept in a secure receptacle until the votes are counted.

(3) No person other than the ballot holder and his or her clerks may be present at the receipt of the ballot papers, unless permitted by the ballot holder to attend.

The count

14.-(1) As soon as practicable after the day of the ballot, the ballot holder must make arrangements for counting the votes cast on such of the ballot papers as have been duly returned (in accordance with paragraph 13(1)) and record the number counted.

(2) No person other than the ballot holder and his or her clerks may be present at the counting of the votes, unless permitted by the ballot holder to attend.

Rejected ballot papers

15.-(1) Where a ballot paper is received which bears the same number or barcode as a ballot paper already received, both that ballot paper and the other ballot paper bearing the same number or barcode (as the case may be) shall be void and not counted.

(2) Any ballot paper which is unsigned, unmarked or void for uncertainty shall, subject to sub-paragraph (3), be void and not counted.

(3) A ballot paper on which the vote is marked -

- (a) elsewhere than in the proper place; or
- (b) otherwise than by means of a cross; or
- (c) by more than one mark,

shall not for such reason be deemed to be void if the voting intention appears clear.

Decisions on ballot papers

16. The decision of the ballot holder on any question arising in respect of a ballot paper shall be final.

Cyhoeddi'r canlyniad

17.-(1) Rhaid i drefnydd y bleidlais ardystio -

- (a) cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn y bleidlais ar wahân i unrhyw bleidleisiau a wnaed ar bapurau pleidleisio a wrthodwyd o dan y rheol ym mharagraff 15;
- (b) gwerth ardrethol cyfunol pob hereditament y pleidleisiodd person mewn perthynas ag ef yn y bleidlais;
- (c) cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd o blaid y cwestiwn a ofynnwyd yn y bleidlais; a
- (ch) gwerth ardrethol cyfunol pob hereditament y pleidleisiodd person mewn perthynas ag ef o blaid y cwestiwn a ofynnwyd yn y bleidlais.

(2) Rhaid i drefnydd y bleidlais, ar ôl ardystio o dan is-baragraff (1), -

- (a) gwneud datganiad ynghylch y materion a ardystiwyd; a
- (b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r cyhoedd ynghylch y materion a ardystiwyd.

Dilysrwydd

18.-(1) Ni chaiff unrhyw bleidlais AGB, pleidlais ddiwygio, pleidlais adnewyddu neu ail bleidlais, yn ôl y digwydd, gael ei datgan yn annilys oherwydd unrhyw weithred neu hepgoriad gan drefnydd y bleidlais neu unrhyw berson arall o ganlyniad i fynd yn groes i ddarpariaethau'r Atodlen hon, os ymddengys i lys yn ystyried y cwestiwn bod -

- (a) y bleidlais AGB, pleidlais ddiwygio, pleidlais adnewyddu neu ail bleidlais, yn ôl y digwydd, wedi'i chynnal a'i bod i raddau helaeth yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon; a
- (b) ni wnaeth y weithred neu'r hepgoriad effeithio ar ei chanlyniad.

(2) Yn achos pleidlais AGB, pleidlais adnewyddu, pleidlais ddiwygio neu ail bleidlais, yn ôl y digwydd, oni bai fod achos wedi'i ddwyn yn ei gylch cyn dyddiad cychwyn y trefniadau AGB, y trefniadau AGB adnewyddedig neu'r trefniadau AGB diwygiedig (yn ôl y digwydd), cymerir iddi fod i bob pwrpas yn bleidlais dda a dilys.

Cadw papurau pleidleisio

19. Rhaid i drefnydd y bleidlais gadw'r papurau pleidleisio am chwe mis ar ôl dyddiad y bleidlais ac yna, oni chyfarwyddir ef yn wahanol gan orchymyn yr Uchel Lys, eu dinistrio.

Declaration of result

17.-(1) The ballot holder must certify -

- (a) the total number of votes cast in the ballot excluding any votes given on ballot papers rejected under the rule in paragraph 15;
- (b) the aggregate rateable value of each hereditament in respect of which a person voted in the ballot;
- (c) the total number of votes cast in favour of the question asked in the ballot; and
- (d) the aggregate rateable value of each hereditament in respect of which a person voting in the ballot has voted in favour of the question asked.

(2) The ballot holder, having made the certification under sub-paragraph (1), must -

- (a) forthwith make a declaration of the matters so certified; and
- (b) as soon as reasonably practicable give public notice of the matters so certified.

Validity

18.-(1) No BID ballot, renewal ballot, alteration ballot or re-ballot, as the case may be, shall be declared invalid by reason of any act or omission of the ballot holder or any other person in breach of the provisions of this Schedule, if it appears to a court considering the question that -

- (a) the BID ballot, renewal ballot, alteration ballot or re-ballot, as the case may be, was so conducted as to be substantially in accordance with the provisions of this Schedule; and
- (b) the act or omission did not affect its result.

(2) A BID ballot, renewal ballot, alteration ballot or re-ballot, as the case may be, unless proceedings are started in relation to it before the commencement date of the BID arrangements, renewed BID arrangements of altered BID arrangements (as the case may be), shall be deemed to have been to all intents a good and valid ballot.

Retention of ballot papers

19. The ballot holder must retain the ballot papers for six months after the day of the ballot and then, unless otherwise directed by order of the High Court, must cause them to be destroyed.

CADW CYFRIF REFENIW YR AGB

THE KEEPING OF THE BID REVENUE ACCOUNT

RHAN 1

PART 1

Credydau i'r Cyfrif

Credits to the Account

1. Am bob blwyddyn, rhaid i awdurdod bilio, y mae'n ofynnol iddo gadw Cyfrif Refeniw ar gyfer yr AGB ("y cyfrif"), gredydu i'r cyfrif hwnnw symiau sy'n cyfateb i'r eitemau a restrir yn y Rhan hon o'r Atodlen hon.

1. For each year a billing authority which is required to keep a BID Revenue Account ("the account") must carry to the credit of the account amounts equal to the items listed in this Part of this Schedule.

*Eitem 1: refeniw'r AGB**Item 1: BID revenues*

Symiau a dalwyd am y flwyddyn o dan adrannau 43 a 45 y Ddeddf.

Sums paid for the year under sections 43 and 45 of the Act.

*Eitem 2: incwm o wasanaethau a chyfleusterau'r AGB**Item 2: income from BID services and facilities*

Symiau a dderbyniwyd gan yr awdurdod am y flwyddyn o ran gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarparwyd ganddo (ac eithrio cyfraniadau a wnaed ganddo i'r AGB o dan adran 43(2)(a) y Ddeddf) o dan drefniadau'r AGB.

Sums received by the authority for the year in respect of services or facilities provided by it (excluding contributions made by it to the BID under section 43(2)(a) of the Act) under the BID arrangements.

*Eitem 3: lleihad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus**Item 3: reduced provision for bad or doubtful debts*

Y canlynol sef -

The following, namely -

- (a) unrhyw symiau a gafodd eu debydu i'r cyfrif am flwyddyn flaenorol o dan is-baragraff (a) eitem 3 Rhan 2 o'r Atodlen hon sydd wedi eu hadennill gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn; a
- (b) unrhyw swm o faint y dylid ym marn yr awdurdod, lleihau unrhyw ddarpariaeth a gafodd ei debydu i'r cyfrif am flwyddyn flaenorol o dan is-baragraff (b) yr eitem honno.

- (a) any sums debited to the account for a previous year under sub-paragraph (a) of item 3 of Part 2 of this Schedule which have been recovered by the authority during the year; and
- (b) any amount by which, in the opinion of the authority, any provision debited to the account for a previous year under sub-paragraph (b) of that item should be reduced.

*Eitem 4: balans credyd o'r flwyddyn flaenorol**Item 4: credit balance from previous year*

Unrhyw falans credyd a ddangosir yn y cyfrif am y flwyddyn flaenorol.

Any credit balance shown in the account for the previous year.

RHAN 2

Debydau i'r Cyfrif

2. Am bob blwyddyn, rhaid i awdurdod bilio, y mae'n ofynnol iddo gadw Cyfrif Refeniw ar gyfer yr AGB ("y cyfrif"), ddebydu i'r cyfrif hwnnw symiau sy'n cyfateb i'r eitemau a restrir yn y Rhan hon o'r Atodlen hon.

Eitem 1: cost casglu ar gyfer yr AGB

Y gost i'r awdurdod o gasglu lefi'r AGB am y flwyddyn.

Eitem 2: gwariant ar yr AGB

Gwariant yr awdurdod am y flwyddyn o ganlyniad i drefniadau'r AGB (gan gynnwys symiau a dalwyd i drydydd parti am gyflawni'r gwaith neu'r gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau'r AGB).

Eitem 3: darpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus

Y canlynol sef -

- (a) unrhyw symiau a gredydwyd i'r cyfrif am y flwyddyn neu am unrhyw flwyddyn flaenorol o dan eitem 1 neu 2 Rhan 1 o'r Atodlen hon sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddyledion drwg y dylid eu diddymu; ac
- (b) unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus y dylid, ym marn yr awdurdod, ei gwneud o ran symiau o'r fath a gredydwyd.

Eitem 4: balans Debyd o'r flwyddyn flaenorol

Unrhyw falans debyd a ddangosir yn y cyfrif am y flwyddyn flaenorol.

ATODLEN 4

Rheoliad 15

CODI, GWEINYDDU, CASGLU,
ADENNILL A GWEITHREDU LEFI'R AGB

Dehongli

1.-(1) Yn yr Atodlen hon, y mae "cyfnod perthnasol" yng nghyswllt hysbysiad yn golygu'r cyfnod trethadwy y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddo.

(2) Pan gyfeirir yn yr Atodlen hon at y diwrnod y cyflwynir hysbysiad, cymerir iddynt fod yn

PART 2

Debits to the Account

2. For each year a billing authority which is required to keep a BID Revenue Account ("the account") must carry to the debit of the account amounts equal to the items listed in this Part of this Schedule.

Item 1: BID cost of collection

The cost to the authority for the year in respect of collecting the BID levy.

Item 2: BID expenditure

The expenditure of the authority for the year in respect of the BID arrangements (including sums paid to a third party to undertake the works or services under the BID arrangements).

Item 3: provision for bad or doubtful debts

The following, namely -

- (a) any sums credited to the account for the year or any previous year under item 1 or 2 of Part 1 of this Schedule which, in the opinion of the authority, are bad debts which should be written off; and
- (b) any provision for doubtful debts which, in their opinion, should be made in respect of sums so credited.

Item 4: debit balance from previous year

Any debit balance shown in the account for the previous year.

SCHEDULE 4

Regulation 15

IMPOSITION, ADMINISTRATION,
COLLECTION, RECOVERY AND
APPLICATION OF THE BID LEVY

Interpretation

1.-(1) In this Schedule "relevant period" in relation to a notice means the chargeable period to which the notice relates.

(2) Where references are made in this Schedule to the day on which a notice is issued, they shall be taken

gyfeiriadau -

- (a) os cyflwynir yr hysbysiad yn y dull a ddisgrifir yn is-baragraff (3) isod neu yn adran 233(2) o Ddeddf 1972 drwy ei adael yn, neu ei anfon yn y post at leoliad busnes person neu ei gyfeiriad priodol, at y diwrnod y gadawyd neu y postiwyd ef; neu
- (b) mewn unrhyw achos arall, at y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad.

(3) Heb ragfarnu adran 233 o Ddeddf 1972, lle mae unrhyw hysbysiad sy'n rhaid neu yr awdurdodir ei roi neu ei gyflwyno i berson o dan yr Atodlen hon yn berthnasol i hereditament sydd (neu, lle mae hysbysiad o'r fath yn berthnasol i fwy nag un hereditament, lle mae un neu fwy ohonynt) yn lleoliad busnes y person hwnnw, gellir ei roi neu ei gyflwyno drwy ei adael yn, neu ei anfon yn y post ato yn y lleoliad busnes (neu, yn ôl y digwydd, yn un o'r lleoliadau busnes hynny).

(4) Heb ragfarnu adran 233 o Ddeddf 1972 ac is-baragraff (3) uchod ac yn ddarostyngedig i is-baragraffau (5) i (8) isod, o ran unrhyw hysbysiad sy'n rhaid neu yr awdurdodir ei roi neu ei gyflwyno gan awdurdod bilio i unrhyw berson o dan yr Atodlen hon, neu o ran unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff 3(2) yr Atodlen hon (i gael ei darparu) i unrhyw berson pan gyflwynir hysbysiad galw am dalu o fewn ystyr yr Atodlen hon -

- (a) gellir eu rhoi, cyflwyno neu ddarparu'r uchod drwy anfon yr hysbysiad neu'r wybodaeth at y person hwnnw ar ffurf electronig i'r cyfeiriad hwnnw a roddir gan y person hwnnw at y diben hwnnw; neu
- (b) byddant yn cael eu hystyried i fod wedi eu rhoi, cyflwyno neu eu darparu i'r person hwnnw -
 - (i) lle bo'r awdurdod bilio a'r person hwnnw wedi cytuno at y diben hwnnw y gall y person hwnnw gael gafael ar unrhyw ddogfennau yn cynnwys yr hysbysiad neu'r wybodaeth ar wefan;
 - (ii) lle bo'r ddogfen yn ddogfen y mae'r cytundeb hwnnw yn berthnasol iddo;
 - (iii) lle mae'r awdurdod bilio wedi cyhoeddi'r ddogfen ar wefan; a
 - (iv) lle bo'r person hwnnw yn cael ei hysbysu, mewn dull y cytunwyd arno at y diben hwnnw am y tro rhyngddo ef a'r awdurdod bilio, ynghylch -
 - (aa) cyhoeddi'r ddogfen ar wefan;
 - (bb) cyfeiriad y wefan honno; ac
 - (cc) ymhle ar y wefan y gall gael gafael ar y ddogfen.

(5) At ddiben unrhyw achos cyfreithiol, bydd hysbysiad a gyflwynwyd drwy'r dull a ddisgrifir ym mharagraff (4), oni phrofir yn wahanol, yn cael ei drin

to be references -

- (a) if the notice is served in the manner described in sub-paragraph (3) below or section 233(2) of the 1972 Act by being left at, or sent by post to, a person's place of business or proper address, to the day on which it is so left or posted, or
- (b) in any other case, to the day on which it is served.

(3) Without prejudice to section 233 of the 1972 Act, where any notice which is required or authorised by this Schedule to be given to or served on a person relates to a hereditament which is (or, where such a notice relates to more than one hereditament, one or more of which is) a place of business of that person, it may be given or served by leaving it at, or by sending it by post to him or her at, the place of business (or, as the case may be, one of those places of business).

(4) Without prejudice to section 233 of the 1972 Act and sub-paragraph (3) above and subject to sub-paragraphs (5) to (8) below, any notice required or authorised to be given to or served by a billing authority on any person by this Schedule, or any information required by paragraph 3(2) of this Schedule to be supplied to any person when a demand notice (within the meaning of this Schedule) is served -

- (a) may be so given, served or supplied by sending the notice or information to that person by electronic communication to such address as may be notified by that person for that purpose; or
- (b) are to be treated as given, served or supplied to that person where -
 - (i) the billing authority and that person have agreed for that purpose that any documents containing the notice or information may be accessed by that person on a website;
 - (ii) the document is a document to which that agreement applies;
 - (iii) the billing authority has published the document on a website; and
 - (iv) that person is notified, in a manner for the time being agreed for those purposes between him or her and the billing authority, of -
 - (aa) the publication of the document on a website;
 - (bb) the address of that website; and
 - (cc) the place on the website where the document may be accessed.

(5) For the purpose of any legal proceedings, a notice given by a means described in paragraph (4) shall, unless the contrary is proved, be treated as served

i fod wedi'i gyflwyno ar yr ail ddiwrnod busnes ar ôl -

- (a) ei anfon yn unol ag is-baragraff (4)(a); neu
- (b) cyflwyno hysbysiad ynghylch ei gyhoeddi yn unol ag is-baragraff (4)(b)(iv).

(6) Rhaid i berson sydd wedi rhoi cyfeiriad at ddiben is-baragraff (4)(a), drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod bilio, roi gwybod i'r awdurdod bilio am unrhyw newid i'r cyfeiriad hwnnw; a bydd y newid yn cael effaith ar y trydydd diwrnod busnes ar ôl y dyddiad pan dderbynnir yr hysbysiad gan yr awdurdod bilio.

(7) Caiff person sydd wedi rhoi cyfeiriad at ddiben is-baragraff (4)(a) dynnu'r hysbysiad hwnnw yn ôl, drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig at yr awdurdod bilio; a bydd y weithred o dynnu'n ôl yn cael effaith ar y trydydd diwrnod busnes ar ôl y dyddiad pan dderbynnir yr hysbysiad gan yr awdurdod bilio.

(8) Caiff person sydd wedi ffurfio cytundeb gyda'r awdurdod bilio o dan is-baragraff (4)(b)(i) roi gwybod i'r awdurdod, drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig ato, nad yw mwyach yn dymuno bod yn barti yn y cytundeb; a lle cyflwynir hysbysiad o'r fath, bydd y cytundeb yn cael ei ystyried i fod wedi'i ddi-ddymu ar y trydydd diwrnod busnes ar ôl y dyddiad pan dderbynnir yr hysbysiad gan yr awdurdod bilio.

Y gofyniad ar gyfer hysbysiau galw am dalu

2.-(1) Am bob cyfnod trethadwy, rhaid i awdurdod bilio perthnasol, yn unol â pharagraffau 4 i 6, gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i bob person sy'n atebol i dalu lefi'r AGB o ran trefniadau'r AGB am y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid cyflwyno gwahanol hysbysiau galw am dalu am wahanol gyfnodau trethadwy.

(3) Rhaid cyflwyno hysbysiad galw am dalu o ran y swm sy'n daladwy am bob hereditament y mae person yn atebol i dalu lefi'r AGB mewn perthynas ag ef, er y gall un hysbysiad gyfeirio at y swm sy'n daladwy o ran mwy nag un hereditament o'r fath.

(4) Os bydd un hysbysiad galw am dalu yn cyfeirio at y swm sy'n daladwy o ran mwy nag un hereditament, rhaid i'r symiau sy'n daladwy mewn perthynas ag ef, a'r dyddiadau y bydd y rhain yn ddyledus, gael eu penderfynu fel pe bai hysbysiau ar wahân yn cael eu cyflwyno o ran pob hereditament.

Yr hyn a gynhwysir mewn hysbysiau galw am dalu

3.-(1) Rhaid i hysbysiad galw am dalu gynnwys y materion canlynol -

- (a) datganiad yn rhoi cyfeiriad a disgrifiad pob hereditament y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddo;

on the second business day after -

- (a) it was sent in accordance with sub-paragraph (4)(a); or
- (b) notification of its publication was given in accordance with sub-paragraph (4)(b)(iv).

(6) A person who has notified an address for the purpose of sub-paragraph (4)(a) must, by notice in writing to the billing authority, advise the billing authority of any change in that address; and the change shall take effect on the third business day after the date on which the notice is received by the billing authority.

(7) A person who has notified an address for the purpose of paragraph sub-paragraph (4)(a) may, by notice in writing to the billing authority, withdraw that notification; and the withdrawal shall take effect on the third business day after the date on which the notice is received by the billing authority.

(8) A person who has entered into an agreement with the billing authority under sub-paragraph (4)(b)(i) may, by notice in writing to the billing authority, inform the authority that he or she no longer wishes to be a party to the agreement; and where such notice is given, the agreement shall be treated as revoked on the third business day after the date on which the notice is received by the billing authority.

The requirement for demand notices

2.-(1) For each chargeable period a relevant billing authority must, in accordance with paragraphs 4 to 6, serve a notice in writing on every person who is liable for the BID levy in relation to the BID arrangements for the period.

(2) Different demand notices must be served for different chargeable periods.

(3) A demand notice must be served with respect to the amount payable for every hereditament as regards which a person is liable for the BID levy, though a single notice may relate to the amount payable with respect to more than one such hereditament.

(4) If a single demand notice relates to the amount payable with respect to more than one hereditament the amounts due under it, and the times at which they fall due, must be determined as if separate notices were issued in respect of each hereditament.

Content of demand notices

3.-(1) A demand notice must contain the following matters -

- (a) a statement of the address and description of each hereditament to which the notice relates;

- (b) datganiad yn egluro sut y cyfrifir lefi'r AGB am bob hereditament y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddo; a
- (c) datganiad ynghylch ar ba ddiwrnodau (os o gwbl), at ddiben cyfrifo'r taliadau sy'n rhaid eu gwneud o dan yr hysbysiad, y deallwyd bod y person sy'n atebol i dalu lefi'r AGB mewn perthynas â'r hereditament yn dod o dan y disgrifiad yn nhrefniadau'r AGB o berson sy'n atebol i dalu lefi'r AGB am y cyfnod trethadwy dan sylw.

(2) Rhaid i awdurdod bilio, pan fydd yn cyflwyno hysbysiad galw am dalu, ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo -

- (a) y refeniw o lefi'r AGB y dylai'r awdurdod bilio fod wedi'i dderbyn yn y flwyddyn flaenorol;
- (b) faint a arian a wariwyd ar drefniadau'r AGB yn y flwyddyn flaenorol;
- (c) disgrifiad o'r materion y gwariwyd yr arian hwn arnynt; a
- (ch) disgrifiad o'r materion y bwriedir gwario'r refeniw o lefi'r AGB arnynt yn y flwyddyn ariannol.

Hysbysiadau annilys

4.-(1) Os -

- (a) yw hysbysiad galw am dalu yn annilys am nad yw'n cydymffurfio â pharagraff 3;
- (b) yr oedd methiant i gydymffurfio felly wedi digwydd oherwydd camgymeriad; ac
- (c) yr oedd y symiau oedd yn daladwy o dan yr hysbysiad yn galw am gael eu talu o dan baragraff 3(1),

bydd y gofyniad i dalu'r symiau hyn yn gymwys fel pe bai'r hysbysiad yn un dilys.

(2) Pan fo'r gofyniad i dalu swm o dan hysbysiad annilys yn bodoli yn rhinwedd is-baragraff (1), rhaid i'r awdurdod bilio, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl darganfod y camgymeriad, gyflwyno i'r person sy'n atebol i dalu lefi'r AGB dan sylw ddatganiad ynghylch pa faterion oedd heb eu cynnwys yn yr hysbysiad ac a ddylai fod wedi eu cynnwys.

Cyflwyno hysbysiadau galw am dalu

5.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid cyflwyno hysbysiad galw am dalu ar neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl, -

- (a) ac eithrio mewn achos sy'n dod o dan baragraff (b), diwrnod cyntaf y cyfnod perthnasol; neu
- (b) os yw'r person yn dod o dan y disgrifiad o berson sy'n atebol i dalu lefi'r AGB, fel a nodir yn nhrefniadau'r AGB o ran yr hereditament dan sylw, yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod

- (b) a statement explaining how the BID levy is calculated for each hereditament to which the notice relates; and
- (c) a statement of the days (if any) on which, for the purposes of calculating the payments required to be made under the notice, it was understood that the person who is liable for the BID levy in respect of the hereditament fell within the description in the BID arrangements of persons who are to be liable for the BID levy for the chargeable period in question.

(2) A billing authority must when it serves a demand notice supply to the person to whom the notice is served the following information -

- (a) the revenue from the BID levy the billing authority was due to receive in the previous year;
- (b) the amount spent on the BID arrangements in the previous year;
- (c) a description of the matters on which it was spent; and
- (d) a description of the matters on which it is intended to spend the revenue from the BID levy in the financial year.

Invalid notices

4.-(1) Where -

- (a) a demand notice is invalid because it does not comply with paragraph 3;
- (b) the failure so to comply was due to a mistake; and
- (c) the amounts required to be paid under the notice were demanded in accordance with paragraph 3(1),

the requirement to pay those amounts shall apply as if the notice were valid.

(2) Where a requirement to pay an amount under an invalid notice subsists by virtue of sub-paragraph (1), the billing authority must as soon as practicable after the mistake is discovered issue to the person who is liable for the BID levy concerned a statement of the matters which were not contained in the notice and which should have been so contained.

Service of demand notices

5.-(1) Subject to sub-paragraph (2), a demand notice must be served on or as soon as practicable after -

- (a) except in a case falling within paragraph (b), the first day of the relevant period; or
- (b) if the person falls within the description of person to be liable for the BID levy specified in the BID arrangements as regards the hereditament concerned later in the relevant

perthnasol, y diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod y mae'r person yn dod o dan y disgrifiad hwnnw.

(2) Ceir cyflwyno hysbysiad galw am dalu cyn dechrau'r cyfnod perthnasol i berson sy'n ymddangos i'r awdurdod bilio perthnasol, ar y diwrnod y cyflwynir ef, ei fod yn dod o dan y disgrifiad o berson sy'n atebol i dalu lefi'r AGB fel a nodir yn nhrefniadau'r AGB o ran yr hereditament y mae'n berthnasol iddo; ac, os cyflwynir yr hysbysiad felly, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn yr Atodlen hon at berson sy'n atebol i dalu lefi'r AGB, o ran yr hysbysiad hwnnw a chyn belled ag y mae'r cyd-destun yn caniatáu, i fod yn gyfeiriad at y person hwnnw.

Taliadau o dan hysbysiau galw am dalu

6.-(1) Os cyflwynir hysbysiad galw am dalu cyn neu yn ystod y cyfnod perthnasol ac ymddengys i'r awdurdod bilio perthnasol bod y person yn dod o dan y disgrifiad o berson sy'n atebol i dalu lefi'r AGB yn ôl yr hyn a bennir yn nhrefniadau'r AGB o ran y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o ran yr hereditament y mae'n berthnasol iddo, bydd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i dalu swm sy'n cyfateb i amcangyfrif yr awdurdod bilio perthnasol o'r swm sy'n daladwy am y cyfnod.

(2) Wrth wneud amcangyfrif o dan is-baragraff (1), rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol dybio, o ran y cyfnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, y bydd y person yn parhau i ddod o dan y disgrifiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1).

(3) Os cyflwynir hysbysiad galw am dalu yn ystod y cyfnod perthnasol ond nad yw is-baragraff (1) yn berthnasol, bydd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i dalu swm sy'n cyfateb i'r swm sy'n daladwy am y cyfnod yn y cyfnod hyd at y diwrnod pan ddaeth y person ddiwethaf o dan y disgrifiad o berson sy'n atebol i dalu lefi'r AGB fel a bennir yn nhrefniadau'r AGB o ran yr hereditament dan sylw.

(4) Os, ar ôl cyflwyno hysbysiad y mae is-baragraff (3) yn berthnasol iddo, bydd y person yn dod eto o dan y disgrifiad o berson sy'n atebol i dalu lefi'r AGB yn ôl yr hyn a bennir yn nhrefniadau'r AGB am y cyfnod perthnasol o ran yr hereditament dan sylw, rhaid cyflwyno hysbysiad pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo dalu'r swm sy'n daladwy o ran yr hereditament am y cyfnod o fewn y cyfnod perthnasol gan ddechrau gyda'r diwrnod y daeth y person o dan y disgrifiad hwnnw eto.

